Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

## Economi; Menter; Trafnidiaeth; Dysgu Gydol Oes

## Croeso i fwletin y Pwyllgor

Y Pwyllgor Menter a Dysgu yw un o Bwyllgorau Craffu **Cynulliad Cenedlaethol Cymru.** Ei brif swyddogaeth yw dwyn **Llywodraeth Cynulliad Cymru** i gyfrif drwy edrych ar wariant, gweinyddiaeth a pholisïau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill yn y meysydd a ganlyn:

- **Datblygu economaidd ac adfywio**
- **Menter gymdeithasol**
- **Trafnidiaeth**
- **Dysgu gydol oes**

Bwletin neu gylchlythyr yw hwn i unigolion a chyrff sydd am gael gwybodaeth am waith Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yr hyn y mae wedi'i gyflawni a'r modd y mae'n gweithio. Gobeithio y bydd yn gwneud gwaith y Pwyllgor yn fwy hysbys ac yn ennyn diddordeb pobl yn y gwaith hwnnw drwy'ch helpu chi i roi gwybodaeth ac arbenigedd i'r swyddogion a'r Aelodau. Cafodd y bwletin ei lunio gan y tîm clercio sy'n cefnogi gwaith y Pwyllgor.

## Manylion cysylltu

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Siân Phipps** | Clerc | 02920 898582 | sian.phipps@wales.gsi.gov.uk |
| **Dan Collier** | Dirprwy Glerc | 02920 898020 | daniel.collier@wales.gsi.gov.uk |
| **Mike Lewis** | Cymorth Tîm | 02920 898018 | michael.lewis@wales.gsi.gov.uk |

Gallwch hefyd anfon e-bost at Dîm Clercio'r Pwyllgor drwy ddefnyddio'r linc: Enterprise.learning.comm@Wales.gsi.gov.uk. Ein rhif ffacs yw: 02920 898021

Gwefan: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home.htm

## Y newyddion diweddaraf

Ar 15 Gorffennaf, cynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch Priffyrdd a Thrafnidiaeth. Gorchymyn arfaethedig a gynigiwyd gan y Pwyllgor yw hwn (y Gorchymyn ynghylch Llwybrau Didraffig yn y cyfnod drafft). Cytunodd y Pwyllgor ar gynnig na ddylid gorfod ystyried y Gorchymyn yn fanwl yn un o Bwyllgorau Deddfwriaeth y Cynulliad gan fod y Pwyllgor Menter a Dysgu eisoes wedi craffu arno ac wedi cynnal proses ymgynghori. Felly, gall y Pwyllgor fwrw ymlaen a gosod Gorchymyn drafft i fod yn destun dadl yn y Cyfarfod Llawn yn ddiweddarach eleni. Gellir gweld trawsgrifiad o'r ddadl ar 15 Gorffennaf drwy ddilyn y linc hwn:

http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-chamber/bus-chamber-third-assembly-rop.htm?act=dis&id=137764&ds=7/2009

Cyhoeddodd y Pwyllgor yr adroddiadau a ganlyn yn ystod tymor yr haf:

- Swyddogaeth Llywodraethwyr Ysgolion - 9 Gorffennaf 2009.
- Lwfans Cynhaliaeth Addysg – 8 Mehefin 2009.
- Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Dirwasgiad Economaidd Byd-eang Presennol – 14 Mai 2009.
- Ystyriaethau'r Pwyllgor Menter a Dysgu o'r ddeiseb ar fyfyrwyr ôl-19 sydd ag anghenion dysgu ychwanegol – 1 Mai 2009.

Gellir gweld holl adroddiadau'r Pwyllgor Menter a Dysgu drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-report.htm

Ddechrau tymor yr hydref, bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi ei adroddiad ar gefnffyrdd a lleihau nifer y bobl sy'n gael eu lladd neu'u hanafu mewn damweiniau. Bydd yr adroddiad i'w weld ar dudalen adroddiadau'r Pwyllgor unwaith y caiff ei gyhoeddi.

Os hoffech gael copïau caled o adroddiadau'r Pwyllgor, anfonwch neges e-bost at daniel.collier@wales.gsi.gov.uk

## Gwaith y Pwyllgor yn nhymor yr hydref:

**Sylwch y gall dyddiadau a phynciau'r ymchwiliadau newid wrth i flaenoriaethau ddod i'r amlwg.**

**Seilwaith y rheilffyrdd yn y dyfodol** – pedwar cyfarfod o 21 Hydref, gan gynnwys craffu ar waith y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth a rhanddeiliaid allweddol. Disgwylir yr adroddiad erbyn diwedd tymor yr hydref.

**Creu swyddi yn yr economi gwyrdd** – dau gyfarfod yn ystod mis Tachwedd. Craffu ar waith y Gweinidogion perthnasol a chlywed tystiolaeth gan randdeiliaid allweddol. Mae disgwyl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ym mis Ionawr.

**Y Strategaeth Gweithgynhyrchu** - un cyfarfod ym mis Rhagfyr. Gwaith craffu posibl ar y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth a'r prif randdeiliaid.

**Cyfraniad economaidd addysg uwch** - ar ôl cynnal sesiwn graffu gyda'r Gweinidog ynghylch adolygiad yr Athro Merfyn Jones o addysg uwch ar 2 Gorffennaf, a chynnal sesiwn dystiolaeth bellach ym mis Hydref, bydd y Pwyllgor yn llunio'i adroddiad terfynol ar gyfraniad economaidd addysg uwch yn nhymor yr hydref. Linc i'r adroddiad dros dro:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-doc-laid.htm?act=dis&id=113522&ds=1/2009

At hynny, bydd y Pwyllgor yn craffu ar waith y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau ar yr **agenda weddnewid ar gyfer addysg ôl-16,** ac ar waith y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar weithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor ar **roi cymorth i bobl â dyslecsia**.

**Grŵp Rapporteur ar Ddwyieithrwydd -** bydd yn gweithio'n anffurfiol ac yn ymweld ag unigolion a chyrff a all fod o gymorth i'r grŵp gyda'i gylch gwaith:

- Addysgu a dysgu Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion uwchradd a sut y mae'r Gymraeg wedyn yn cael ei defnyddio mewn bywyd cymdeithasol a bywyd oedolion;
- Hyfforddiant a sgiliau dwyieithrwydd yn y gweithle;
- Rhyngwyneb busnes â'r cyhoedd.

Yn Eisteddfod yr Urdd ym mis Mai 2009, bu'r Grŵp Rapporteur yn clywed tystiolaeth fideo gan athrawon, disgyblion a'u rhieni ynghylch dysgu Cymraeg fel ail iaith. Gellir gweld y dystiolaeth fideo a'r holiaduron ar-lein drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-welsh-learners.htm

## Dadleuon yn y Cyfarfod Llawn

Cynhelir dadleuon yn y Cyfarfod Llawn yn gynnar yn nhymor yr hydref ar adroddiad y Pwyllgor ar swyddogaeth llywodraethwyr ysgolion a'i adroddiad ar gefnffyrdd a lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu'u hanafu mewn damweiniau.

## Crynodeb o adroddiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar a dadleuon yn y Cyfarfod Llawn

Ceir manylion am y rhain ar dudalen adroddiadau gwefan y Pwyllgor: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-report.htm

## Edrych ymhellach ymlaen

**Rydym eisoes yn gwybod am rai o'r materion y bydd y Pwyllgor yn craffu arnynt yn ystod tymor y gwanwyn 2010, ond fel bob amser, gall y blaenoriaethau newid:**

- Fframwaith effeithiolrwydd ysgolion – i gynnwys materion yn ymwneud â'r blynyddoedd cynnar

**Ac ymhellach ymlaen eto…**

Yn **2010**, mae'r Pwyllgor wedi cytuno i adolygu'r broses o weithredu, monitro a gwerthuso *Strategaeth Cerdded a Beicio* Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd y Pwyllgor hefyd yn cynnal rhagor o ymchwiliadau dilynol.

## Sut y byddwn yn cynllunio ymchwiliadau

***Syniadau, dyheadau, arbenigedd a gwybodaeth Aelodau'r Cynulliad yw man cychwyn pob ymchwiliad yn y pen draw.***

Ar gyfartaledd, bydd yr Aelodau a'r swyddogion yn trafod sut i gynllunio ymchwiliadau tuag unwaith bob tymor, i sicrhau bod gan y Pwyllgor raglen waith dreigl a hyblyg.

Gall ymchwiliadau godi mewn gwahanol ffyrdd:

- Yn aml, bydd y Pwyllgor yn penderfynu ei fod am ailedrych ar ymchwiliadau penodol, wedi i gyfnod priodol fynd heibio, i weld a yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithredu'r argymhellion hynny a gafodd eu derbyn gan y Pwyllgor. Yn yr achosion hyn, bydd yn cynnal ymchwiliad dilynol gweddol fyr.
- Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor Deisebau yn gofyn i'r pwyllgorau craffu gynnal ymchwiliad a/neu ymchwilio mewn modd arall i faterion sy'n codi mewn deisebau. Mae'r Pwyllgor Menter a Dysgu wedi cyflwyno adroddiad am nifer o ddeisebau - er enghraifft, gorsaf rheilffordd Carno; tanwydd a chludiant ar y ffyrdd; anghenion dysgu ychwanegol.
- Gan fod Pwyllgorau'n gallu cynnig deddfwriaeth, gallant gynnal ymchwiliadau craffu cyn y broses ddeddfu i sicrhau bod deddfwriaeth yn cael ei drafftio'n gadarn a'i bod yn diwallu anghenion yr holl randdeiliaid.

- Os yw deddfwriaeth y DU yn effeithio'n arwyddocaol ar Gymru, gall y Pwyllgor graffu ar Fesurau drafft y DU neu Fesurau'r DU.
- Yn dilyn ymchwiliad mewn maes penodol, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn penderfynu craffu'n fanylach ar un neu ddau o'r materion a gododd. Er enghraifft, ym mis Chwefror, cyflwynodd y Pwyllgor adroddiad am y Cytundeb Llwyth Gwaith Athrawon ac, o ganlyniad, roedd yr Aelodau'n dymuno ymchwilio ymhellach i swyddogaeth llywodraethwyr ysgolion a gwaith staff cymorth ysgolion.
- Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn penderfynu bod angen defnyddio dulliau mwy anffurfiol a hyblyg o ymchwilio i fater penodol yn hytrach na chraffu ar dystiolaeth mewn gwrandawiadau ffurfiol. Os felly, gall sefydlu grŵp rapporteur o thua phedwar aelod er enghraifft, i ymgymryd â'r gwaith yn y cefndir fel petai, gan gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor llawn. Dyna ddigwyddodd yn achos adroddiad y Pwyllgor am ddyslecsia. Ar hyn o bryd mae gan y Pwyllgor grŵp rapporteur sy'n ystyried agweddau ar ddwyieithrwydd.
- Weithiau bydd tystion yn awgrymu materion eraill i'r Pwyllgor eu hystyried; er enghraifft, tra oedd Prif Gwnstabl Heddlu'r Gogledd yn cael ei holi am ddiogelwch ar y ffyrdd, awgrymodd y dylai'r Pwyllgor fod yn edrych ar rôl Partneriaeth Lleihau Anafiadau ar y Ffyrdd.

## Ac i gloi…

### Sylwadau os gwelwch yn dda!

Hoffem glywed **cynifer o sylwadau â phosibl** ynglŷn â'r ddogfen hon: a oedd hi'n ddefnyddiol i chi, a oedd ei chynnwys yn berthnasol ac yn addas, ac a hoffech i ni gynnwys rhywbeth arall y tro nesaf? Anfonwch e-bost at: daniel.collier@wales.gsi.gov.uk

**Mae croeso i chi anfon y ddogfen hon neu ein manylion cysylltu at unrhyw un os credwch y byddai ganddynt ddiddordeb yng ngwaith y Pwyllgor Menter a Dysgu.**

### Y bwletin nesaf

Ein nod yw cynhyrchu rhyw fath o gylchlythyr/bwletin o leiaf unwaith y tymor, ac anfon e-bost atoch yn amlach os bydd y Pwyllgor yn penderfynu ymgymryd â gwaith craffu brys neu newid ei flaenoriaethau'n ddramatig.